

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 01.09.2015
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cyngorwyr ; Danny Davies, Elfed Davies, Dylan Jones, Pamela Jones, Arwel Nicholas, Carolyn Smethurst
Ymddiheuriadau: Wyn Thomas, Mike Poston, Cyngorydd Sir, Irfon Jones

Rhif Agenda	Nodiadau/ Pendefyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	DD & ED – cynllunio Penllainddu	
Cofnodion	Yn gywir: AN, DJ	
Materion yn Codi	<p>Priffyrdd; Dim newyddion am gynllun atal cyflymdra'r pentref. Cyngorwyr yn unfrydol yn cynnig bod y Clerc yn ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Sir Gâr a chyfeiro at amharodrwydd y Sir I ymateb I geisiadau Cyngor y Gymuned I weithredu; mae'r gymuned yn colli ymddiriedaeth yng Nghyngor y Gymuned.</p> <p>Llwybyr Cyhoeddus Nantgwyn: y Cyngor yn cytuno gyda newid cyfeiriad y llwybyr er mwyn ei wyro o gwmpas clôs y fferm.</p> <p>Toiledau; rhannodd y Clerc wybodaeth am ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a ddaw I rym yn fuan fydd yn diogelu dyfodol toiledau cyhoeddus.</p> <p>Diffaethwch Panddy: Clerc I barhau gyda'r ymholiadau Carreg Goffa: AN yn cyhoeddu mae £590 + TAW fydd y gost</p> <p>Ficerdy: CS yn rhannu gwybodaeth ychwanegol ynglyn a'r amodau cynllunio, sef ei fod yn ofynnol I symud y clawdd nôl 2 fedr</p>	
Gohebiaeth	<p>Un Llais Cymru: gwybodaeth am Gynhadledd Blynyddol Band Llydan: CS wedi derbyn gwybodaeth bod angen diweddarau'r bocsydd gerllaw yr Eglwys. BT wedi dweud bydd y diweddarau wedi ei orffen erbyn diwedd Tachwedd</p> <p>Cae Chwarae: Clerc I ddanfon yr e-bost sydd yn gysylltiedig a'r Cae Chwarae at PJ</p> <p>Llythyr Alan Richards: y Cyngor yn trafod yr ymateb I'r llythyr. CS yn anfodlon gyda'r ymateb ond cytunwyd ei ddanfon.</p>	
Cynllunio	<p>Rhyd y Gaer: derfnyddio'r un tŷ fel dau. ED yn cadarnhau mae felly yr adeiladwyd pan yr adnewyddwyd.</p> <p>Penllainddu: dim I'w drafod oherwydd fod Penllainddu tu hwnt I fro Llanpumsaint</p>	
Materion Ariannol	<p>Trywydd £51.60c: Cytuno ei dalu, AN & PJ</p> <p>BDO: angen trafod yr asesiad risg yng nghyfarfod Mis Chwefror</p>	
UFA	AN – Dim	

	<p>PJ – Dim</p> <p>CS – angen tocio clawdd Beric House a Gwernen. Dŵr yn llifo allan o'r clawdd ar heol Bronwydd wrth fynd lawr l gyfeiriad yr Orsaf. Disgrifio siwrnau anghyfforddus ar y trèn o Abertawe l Gaerfyrddin. Clerc yn gofyn am fanylion er mwyn gwneud cwyn.</p> <p>ED – Dim</p> <p>DJ – tyfiant y borfa ar gloddiau Rhiw Graig yn bwrw trafrnidiaeth a dŵr yn croesi'r heol</p> <p>DD- angen gorffen torri cloddiau</p> <p>WT (yn ei absenoldeb) – angen gofalu fod y nant ar waelod Nant yr Ynys yn gallu llifo o dan y rheilffordd.</p>	

<p>Cafwyd yn gywir :</p> <p>(Cadeirydd)</p> <p>Dyddiad :</p>	<p>Cafwyd yn gywir :</p> <p>(Ysgriennydd)</p> <p>Dyddiad:</p>
--------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------